WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Llywodraethu da wrth benderfynu ar newidiadau sylweddol mewn gwasanaethau – **Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen**


Blwyddyn archwilio: 2016-17

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2017

Cyfeirnod y ddogfen: 113A2017

Mae’r ddogfen hon wedi’i pharatoi fel rhan o waith a wneir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn dweud beth yw'r drefn wrth ymdrin â cheisiadau y disgwylir i awdurdodau cyhoeddus ei dilyn, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol.
Gyda golwg ar y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@audit.wales.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Sara-Jane Byrne, Ron Price a Non Jenkins o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

# Cynnwys

Mae trefniadau llywodraethu'r Cyngor ar gyfer newid sylweddol mewn gwasanaethau yn gadarn ar y cyfan ond bod yna le i wella ansawdd gwerthusiadau'r opsiynau a'r trefniadau i fonitro effaith newidiadau mewn gwasanaethau.


## Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Cynigion ar gyfer gwella 5

## Adroddiad manwl

Mae gan y Cyngor weledigaeth glir ond mae'n dal i ddatblygu ei strategaeth ar gyfer gweithredu 6

Mae trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd ar gyfer newid mewn gwasanaethau yn glir ar y cyfan ac yn ddealladwy 7

Mae'r Cyngor yn ystyried ystod o opsiynau pan gynigir newidiadau mewn gwasanaethau, ond mae lle i gryfhau ansawdd gwerthusiadau'r opsiynau 8

Mae gan y Cyngor drefniadau cadarn ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid ar gynigion i newid gwasanaethau 10

Mae'r Cyngor yn monitro effaith newidiadau mewn gwasanaethau ond nid yw ei drefniadau yn systematig 11

Mae'r Cyngor yn adolygu a gwella effeithiolrwydd ei drefniadau gwneud penderfyniadau yn rhagweithiol 12

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1 Mae llywodraethu yn ymwneud â sut mae cyrff cyhoeddus yn sicrhau eu bod yn gwneud y pethau cywir, yn y ffordd gywir, i'r bobl cywir, mewn modd amserol, cynhwysol, agored, gonest ac atebol. Mae'n cynnwys y systemau a phrosesau, y diwylliannau a'r gwerthoedd sy'n cyfeirio a rheoli cyrff cyhoeddus, y rhai y maent yn atebol iddynt, y rhai y maent yn ymgysylltu â nhw a, lle bo hynny'n briodol, y rhai a ddefnyddir i arwain eu cymunedau.[1]

2 Mae llywodraethu da yn hanfodol ar gyfer stiwardio arian cyhoeddus yn effeithiol a pharhau i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus effeithlon y gellir ymddiried ynddynt. Mae'r hinsawdd ariannol bresennol a setliadau is i lywodraeth leol yn ogystal â galw cynyddol am rai gwasanaethau yn golygu bod pob cyngor yn debygol o barhau i orfod gwneud penderfyniadau ynghylch trefniadau a lefel cyflenwi gwasanaethau i'r dyfodol. Mae'n briodol bod cyrff cyhoeddus yn ceisio sicrhau gwelliant yn barhaus. Caiff newidiadau bach, cynyddol wrth gyflenwi gwasanaethau eu gwneud ar lefel rheolaethol a gweithredol fel rhan o brosesau gwneud penderfyniadau arferol, gweithredol. Fodd bynnag, mae llywodraethu da gyda chymorth cynllunio effeithiol a phrosesau trylwyr yn hanfodol wrth benderfynu ar newidiadau sylweddol mewn gwasanaethau. Mae penderfyniadau o'r fath yn aml yn ddadleuol, yn achosi cryn dipyn o ddiddordeb lleol ac yn gallu effeithio'n sylweddol ar yr unigolion a'r grwpiau dan sylw.

3 O Ebrill 2016, mae'n rhaid i gynghorau gydymffurfio gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (Deddf LlCD) a'r Canllawiau Statudol cysylltiedig. Mae'r Canllawiau Statudol yn nodi: 'Gyda'i gilydd, bwriedir i'r saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio a ddarperir gan Ddeddf LlCD gefnogi a darparu gwasanaeth cyhoeddus sy'n diwallu anghenion y presennol heb beryglu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain'.[2] Mae'r ddeddfwriaeth hon yn rhoi pwyslais ar bwysigrwydd llywodraethu effeithiol o ran cyflawni nodau llesiant.

4 Mae ffocws yr adolygiad hwn ar effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu Cyngor Bwrdeistref Trefol Torfaen (y Cyngor) ar gyfer penderfynu ar newidiadau sylweddol mewn gwasanaethau. Rydym yn diffinio hyn fel unrhyw newid sylweddol o ran cyflenwi gwasanaethau a/neu unrhyw newid sylweddol o ran profiad y sawl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hynny yn allanol. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, newidiadau sylweddol i'r modd gaiff y gwasanaeth ei gyflenwi, lefel y gwasanaeth a ddarperir, argaeledd y gwasanaeth neu gost y gwasanaeth.

5 Mae'r adolygiad hwn yn defnyddio fframwaith diwygiedig Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ar gyfer 'Cyflawni Llywodraethu Da mewn

[1] CIPFA/SOLACE, **Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol: Fframwaith 2007**.

[2] Llywodraeth Cymru, **Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol, Canllaw Statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015,** 18 Chwefror 2016.

Llywodraeth Leol' fel safon priodol, ac yn darparu gwaelodlin i'r Cyngor fel sail ar gyfer cynllunio gwelliant pellach. Yn yr asesiad hwn, a gynhaliwyd yn y cyfnod Medi i Dachwedd 2016, edrychwyd ar agweddau o'r trefniadau gwneud penderfyniadau mewn perthynas ag ystod o gynigion i newid gwasanaethau yn sylweddol er mwyn hysbysu ein hasesiad o drefniadau cyffredinol y Cyngor ar gyfer datblygu a phenderfynu ar newid mewn gwasanaethau. Roedd yr enghreifftiau o newidiadau mewn gwasanaethau a edrychwyd arnynt yn cynnwys:

- cwtogi darpariaeth y gwasanaeth llyfrgell;
- mynd ati eto i sicrhau bod pecynnau gofal cymdeithasol yn briodol o ran maint (yn gysylltiedig â newid mewn meini prawf cymhwyso); a
- thâl a godir am gasglu gwastraff masnachol.

Ni wnaethom edrych yn fanwl ar bob un o'r penderfyniadau i newid gwasanaethau, ond yn hytrach eu defnyddio fel enghreifftiau i dynnu ohonynt ac i ddangos sut mae'r Cyngor yn mynd ati i wneud penderfyniadau mewn perthynas â newid gwasanaethau. Buom hefyd yn ystyried newidiadau mewn gwasanaethau eraill y tynnwyd ein sylw atynt yn ystod cyfnod ein gwaith maes.

6 Yn yr adolygiad hwn, daethom i'n casgliad bod **trefniadau llywodraethu'r Cyngor ar gyfer newid sylweddol mewn gwasanaethau yn gadarn ar y cyfan ond bod yna le i wella ansawdd gwerthusiadau'r opsiynau a'r trefniadau i fonitro effaith newidiadau mewn gwasanaethau.**

# Cynigion ar gyfer gwella

### Ffigur 1: cynnig/cynigion ar gyfer gwella

Mae'r tabl isod yn dangos y meysydd ar gyfer gwella a nodwyd drwy ein hadolygiad.

| **Cynigion ar gyfer gwella** |
|---|
| Gellid cryfhau trefniadau llywodraethu'r Cyngor ar gyfer newid mewn gwasanaethau drwy:<br>P1 Egluro'r protocolau ynghylch presenoldeb aelodau'r Cabinet ym mhrosesau craffu.<br>P2 Gwella ansawdd trefniadau gwerthuso opsiynau drwy gryfhau lefel y wybodaeth ariannol a ddarperir a thrwy gynnwys dadansoddiad o ymgysylltiad gan randdeiliaid.<br>P3 Rhoi trefniadau priodol yn eu lle i ddarparu cymorth a datblygiad i aelodau ynghylch newid mewn gwasanaethau, er enghraifft ar werthuso opsiynau ac asesiadau llesiant newydd y Cyngor.<br>P4 Cryfhau trefniadau ar gyfer monitro effaith newid mewn gwasanaethau gan gynnwys nodi'n glir beth fydd yn cael ei fonitro, ble fydd hyn yn cael ei fonitro a phwy fydd yn gyfrifol am wneud hynny. |

# Adroddiad manwl

## Mae gan y Cyngor weledigaeth glir ond mae'n dal i ddatblygu ei strategaeth ar gyfer gweithredu

7 Fel y rhan fwyaf o gynghorau, mae toriadau yng nghyllideb Cyngor Bwrdeistref Trefol Torfaen (y Cyngor) wedi sbarduno newid mewn gwasanaethau. Mae llawer o gynigion y Cyngor ar gyfer newid mewn gwasanaethau yn gysylltiedig â thoriadau yn ei gyllideb; mae fframwaith cadarn ar gyfer hyn, gyda chryn ymgysylltiad gydag aelodau a thryloywder.

8 Mae'r Cyngor hefyd wedi mynd ati i ystyried y cyfleoedd y mae'r sefyllfa ariannol wedi'u cyflwyno ar gyfer newid mewn gwasanaethau. Roedd Aelodau a swyddogion yn gyson o'r farn bod Cynllun Corfforaethol 3 2016-21 (CC3) y Cyngor a phroses ei gyllideb yn darparu fframwaith clir ar gyfer penderfynu ar newid mewn gwasanaethau. Lansiodd y Cyngor ei strategaeth gorfforaethol newydd, CC3, ar 1 Ebrill 2016, sy'n nodi tair blaenoriaeth:

- Torfaen glân a gwyrdd;
- codi cyrhaeddiad addysgol; a
- chefnogi'r trigolion mwyaf bregus yn Nhorfaen.

9 I bob un o'r blaenoriaethau hyn, mae CC3 hefyd yn nodi gweledigaeth y Cyngor, beth fydd y Cyngor yn ei wneud, beth fydd yn ei gefnogi a'i ddisgwyliadau o drigolion. Roedd ein hadroddiad Asesu Corfforaethol diweddar[3] a gyhoeddwyd ym mis Medi 2016 yn bositif am ymgysylltiad y Cyngor gyda'i randdeiliaid ym mhroses datblygu CC3. Roedd y rhan fwyaf o bartneriaid y Cyngor a ymatebodd i'n harolwg llywodraethu yn cytuno eu bod yn glir ynghylch beth y mae'r Cyngor yn ceisio ei gyflawni pan fydd yn ystyried newid sylweddol mewn gwasanaethau.

10 Mae cysylltiadau clir rhwng cynllun ariannol tymor canolig y Cyngor a CC3, sydd gyda'i gilydd yn darparu cyfeiriad clir o ran sicrhau adnoddau i flaenoriaethau'r Cyngor.

11 Mae templed adrodd y Cyngor yn cynnwys rhai adrannau safonol, er enghraifft, ar risgiau, ymgynghoriad a mesurau llwyddiant. Yn yr un modd, mae templed asesu llesiant y Cyngor yn cynnwys ystod o adrannau safonol a gaiff eu hystyried pan fydd y Cyngor yn penderfynu ar gynigion i newid gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys asesiad o'r modd y rhoddir pum ffordd o weithio Deddf LlCD ar waith,[4] sut

[3] Swyddfa Archwilio Cymru, **Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen: Adroddiad Asesu Corfforaethol 2016,** 12 Medi 2016.

[4] Nod **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)** yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae Ddeddf LlCD yn nodi bod yn rhaid i gyrff cyhoeddus sydd wedi'u rhagnodi weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac yn nodi'r 5 peth canlynol y mae'n rhaid i'r cyrff hyn feddwl amdanynt er mwyn helpu i gefnogi datblygu cynaliadwy: hirdymor, atal, integreiddio, cydweithio a chynnwys. Gwybodaeth bellach am Ddeddf LlCD.

fydd y prosiect yn cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol a'r effaith ar bobl neu grwpiau o bobl gyda nodweddion gwarchodedig. Fodd bynnag, nid oedd amcanion y newidiadau mewn gwasanaethau a gynigiwyd bob amser yn glir yn yr adroddiadau ar gyfer y newid mewn gwasanaethau unigol a welsom, er bod modd dirnad y rhain o'r wybodaeth gefndir a ddarparwyd. Roedd yr Aelodau y gwnaethom eu cyfweld fel rhan o'r adolygiad hwn yn fodlon bod amcanion clir yn eu lle ar gyfer newidiadau mewn gwasanaethau. Roedd ymgysylltiad gydag aelodau perthnasol o'r cabinet a phwyllgorau craffu wrth ymgymryd â newidiadau mewn gwasanaethau fel rhan o broses y gyllideb.

12 Mae tîm arweinyddiaeth y Cyngor yn dal i fod yn y broses o ddatblygu cynllun busnes a fydd yn nodi sut y bydd yn rhoi CC3 ar waith. Bwriedir i'r cynllun yma fod yn barod erbyn diwedd Mawrth 2017. Mae'r cynllun busnes hwn yn rhoi cyfle i'r Cyngor gryfhau ei amcanion, gweledigaeth a meini prawf yn benodol ar gyfer unrhyw newidiadau sylweddol mewn gwasanaethau a gynigir a sut y bydd yn gwireddu hyn. Mae gan ddatblygiad y cynllun busnes y potensial i gryfhau fframwaith y Cyngor ar gyfer penderfynu ar newid gwasanaethau.

## Mae trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd ar gyfer newid mewn gwasanaethau yn glir ar y cyfan ac yn ddealladwy

13 Mae rolau a chyfrifoldebau swyddogion, aelodau a phwyllgorau allweddol wedi'u nodi'n glir yng Nghyfansoddiad y Cyngor, a ddiweddarwyd gan y Cyngor yn Chwefror 2016. Roedd yr holl aelodau a bron pob un o'r swyddogion a ymatebodd i'n harolwg llywodraethu fel rhan o'r adolygiad hwn yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau, ac roeddynt i gyd yn deall trefniadau'r Cyngor ar gyfer penderfyniadau dirprwyedig. Roedd ein cyfweliadau gydag aelodau a swyddogion yn cefnogi hyn yn gyffredinol, lle roeddynt yn dangos dealltwriaeth dda o'u rolau mewn perthynas â newid sylweddol mewn gwasanaethau.

14 Fodd bynnag, roedd dryswch ymhlith rhai aelodau o'r Cabinet ynghylch eu hawl i fynychu pwyllgorau craffu a'r protocolau os ydynt yn gwneud hynny. Byddai'n fuddiol i'r Cyngor felly egluro'r protocolau mewn perthynas ag aelodau o'r Cyngor yn mynychu pwyllgorau craffu.

15 Fel y nodwyd yn ein hadroddiad Asesu Corfforaethol, roedd presenoldeb Aelodau yn aml yn isel yng nghyfarfodydd Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'r Cyngor yn ystod 2015-16 ac, o ganlyniad, gallai hyn fod yn arwydd nad oedd rhai Aelodau mor effeithiol ag y gallent fod wrth gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau. Gwnaethom nodi bod y Cyngor yn mynd ati'n frwd i geisio ymdrin â phresenoldeb yr aelodau.

16 Yn ein hadroddiad Asesu Corfforaethol a gyhoeddwyd ym Medi 2016, cynhwyswyd cynnig ar gyfer gwella sef y dylai'r Cyngor weithio gydag Aelodau er mwyn parhau i ganfod sut y gellir gwella lefelau isel o bresenoldeb mewn rhai pwyllgorau. Rydym

yn pwyso ar y Cyngor i fynd i’r afael â hyn yn gyflym gan fod Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn parhau i ddioddef o bresenoldeb isel yn 2016-17 gydag enghreifftiau o Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu heb gworwm, a hynny’n eu rhwystro rhag cyflawni eu rolau’n effeithiol.

17 Yn unol â’r canfyddiadau yn ein hadroddiad Asesu Corfforaethol, canfuom fod perthynas gynhaliol ac adeiladol rhwng aelodau a swyddogion wrth ystyried newidiadau sylweddol mewn gwasanaethau. Ceir seminarau i aelodau yn wythnosol, sy’n darparu cyfle i rannu gwybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth am wasanaethau allweddol a newidiadau deddfwriaethol. Yn ddiweddar, er enghraifft, cynhaliwyd sesiwn ar gydraddoldeb, ond mae presenoldeb aelodau yn y seminarau hyn yn gallu amrywio.

18 Mae Swyddog Monitro’r Cyngor a’r Dirprwy Brif Weithredwr Adnoddau yn adolygu adroddiadau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio gyda gofynion cyfansoddiadol a chyfreithiol. Mae Swyddog Cydraddoldeb y Cyngor hefyd yn adolygu asesiadau effaith polisïau gorffenedig y Cyngor ac, yn fwy diweddar, asesiadau llesiant i sicrhau eu bod yn cydymffurfio gyda dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Mae templed adrodd safonol sy’n ymdrin â gofynion deddfwriaethol allweddol yn ei le a chafodd ei ddiweddaru a’i gryfhau yn ddiweddar.

## Mae’r Cyngor yn ystyried ystod o opsiynau pan gynigir newid mewn gwasanaethau, ond mae lle i gryfhau ansawdd gwerthusiadau’r opsiynau

19 Mae’r Cyngor yn ystyried ystod o opsiynau pan gynigir newidiadau mewn gwasanaethau. Roedd mwyafrif y swyddogion a’r aelodau a ymatebodd i’n harolwg yn cytuno bod y Cyngor yn ystyried yr holl opsiynau posibl.

20 Mae trefniadau’r Cyngor yn darparu nifer o gyfleoedd i swyddogion ac aelodau graffu ar cynigion i newid gwasanaethau a gwerthusiadau’r opsiynau a’u herio. Er enghraifft, ceir craffu cyn gwneud penderfyniadau a chafwyd rhai enghreifftiau da iawn o ymgysylltiad pwyllgorau Trosolwg a Chraffu gyda chynigion i newid gwasanaethau, megis adolygiad o lefel darpariaeth llyfrgelloedd a chyflwyniad biniau gwastraff ‘tenau’.

21 Mae rhan fwyaf o gadeiryddion trosolwg a chraffu’r Cyngor yn cael cyfarfodydd rheolaidd gyda’u haelodau Cabinet perthnasol. Mae hyn yn rhoi cyfle i gadeiryddion craffu drafod newidiadau posibl mewn gwasanaethau ac ystyried rôl y pwyllgor craffu o ran ystyried cynigion.

22 Mae’r Cyngor yn cynnal gweithdy pwyllgorau craffu ar y cyd i holl aelodau craffu gael trafod ei gynigion i’r gyllideb, sydd hefyd yn agored i’r cyhoedd. Roedd aelodau a swyddogion yn cytuno bod y gweithdai hyn yn gynhyrchiol ac yn darparu cyfleoedd allweddol i ystyried newididu posibl mewn gwasanaethau, y gallai’r Cyngor eu cyflwyno fel rhan o broses y gyllideb.

23 Mae cyfle i aelodau'r Cabinet drafod newidiadau a gynigir mewn gwasanaethau mewn cyfarfodydd anffurfiol o'r Cabinet ac yn eu cyfarfodydd rheolaidd gyda phenaethiaid gwasanaeth perthnasol. Deallwn y caiff cynigion i newid gwasanaethau eu hystyried a'u herio'n fyw ar lefel swyddogion drwy dimau adrannol ac arweiniol.

24 Er nad yw'r Cyngor yn defnyddio dull achos busnes ffurfiol i ystyried cynigion i newid gwasanaethau, mae'n defnyddio templed adrodd safonol, sy'n cynnwys adrannau ar risg, mesurau llwyddiant ac ymgynghori, ac mae hynny'n darparu dull cyson ar gyfer ystyried newid mewn gwasanaethau. Ceir asesiadau effaith polisi i gydfynd â'r adroddiadau hyn ac, yn fwy diweddar, asesiadau llesiant. Fodd bynnag, gan nad oes gweledigaeth ac amcanion clir ar gyfer newid mewn gwasanaethau, y gallai eu cynnwys fel rhan o waith datblygu ei gynllun busnes CC3, nid yw'r meini prawf a ddefnyddir i werthuso newid mewn gwasanaethau yn eglur.

25 Canfu ein hadolygiad o sampl o newidiadau sylweddol mewn gwasanaethau gan y Cyngor bod lle i wella ansawdd gwerthusiadau'r opsiynau. Er enghraifft, nid oedd lefel y wybodaeth ariannol, megis costau neu lle bo hynny'n briodol, dderbyniadau cyfalaf pob opsiwn wedi'i gynnwys bob amser. Canfuom enghreifftiau hefyd lle'r oedd adroddiadau yn rhestru'n syml y rhanddeiliaid yr oedd y Cyngor wedi ymgynghori â hwy yn hytrach na darparu dadansoddiad o ganlyniad yr ymgynghoriad a sut yr oedd hynny wedi llywio'r opsiynau a gyflwynwyd i'r Cabinet.

26 Nid yw'r Cyngor wedi darparu cefnogaeth na hyfforddiant i aelodau ar werthusiadau opsiynau nac ar yr asesiadau llesiant newydd. Gan bod swyddogion bellach yn cynnwys yr asesiadau hyn o fewn eu hadroddiadau i Aelodau, mae'n bwysig bod y Cyngor yn hyderus bod y sawl sy'n gwneud penderfyniadau yn deall yn llawn y wybodaeth a ddarperir a'u bod yn gallu ystyried hyn wrth drafod newidiadau mewn gwasanaethau.

27 Er bod aelodau'r Cabinet ac aelodau craffu a gafodd eu cyfweld fel rhan o'r adolygiad hwn yn gyffredinol fodlon gydag ansawdd y wybodaeth yng ngwerthusiadau opsiynau a ddarparwyd gan swyddogion, roedd aelodau o Bwyllgor Trosolwg a Chraffu wedi dychwelyd adroddiadau i swyddogion lle nad oeddynt yn fodlon gyda'u hansawdd.

28 Daeth ein hadroddiad Asesu Corfforaethol i'r casgliad bod gan uwch dîm rheoli'r Cyngor ddealltwriaeth dda o Ddeddf LlCD a bod y Cyngor wedi dechrau integreiddio'r pum ffordd o weithio i'w brosesau gwneud penderfyniadau, ond nad oedd hyn yn digwydd yn systematig nac yn gyson. Mae'n bositif nodi bod y Cyngor bellach yn gweithredu i sicrhau bod penderfyniadau ynghylch newid mewn gwasanaethau ar hyn o bryd ac i'r dyfodol yn ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy, a'i fod wedi datblygu asesiad llesiant i gefnogi hyn. Mae'r Cyngor wedi datblygu canllawiau i swyddogion ar gwblhau'r asesiadau llesiant, ynghyd â thaflen ysgogiadau i helpu swyddogion ystyried sut i ddatblygu i'r eithaf gyfraniad y Cyngor i'r nodau llesiant. Mae'r Cyngor hefyd wedi rhoi adroddiadau gorffenedig enghreifftiol ar ei fewnrwyd fel canllawiau i swyddogion. Yn bwysicach fyth, mae'r

Cyngor yn ceisio newid ei ddiwylliant fel bod ei asesiadau llesiant yn rhan annatod o gamau cynnar ystyried unrhyw newid mewn gwasanaethau yn hytrach na rhywbeth a ddefnyddir wrth fynd ati i wneud penderfyniad. Mae'r Prif Weithredwr wedi atgyfnerthu'r neges hon ynghylch gwreiddio egwyddorion datblygu cynaliadwy wrth ddechrau ystyried newid gwasanaethau drwy gyfrwng gohebiaeth gyda staff, sy'n amlwg yn treiglo drwy'r sefydliad.

29 Mae cofnodion penderfyniadau'r Cyngor ynghylch newidiadau mewn gwasanaethau ar y cyfan yn hygyrch a chlir. Mae cofnodion o benderfyniadau pob aelod o'r Cabinet ar gael ar wefan y Cyngor. Mae'r rheswm dros benderfyniad yn adran safonol ond fel rheol mae'n nodi 'fel y nodwyd yn yr adroddiad' felly nid dogfen annibynnol mohoni a byddai angen i'r darllenwr gyfeirio yn ôl at yr adroddiad gwreiddiol i ddeall y rheswm dros y penderfyniad. Nid yw'r rheswm dros benderfyniad yn adran benodol o dempled adroddiad safonol y Cyngor; yn hytrach, mae'n dueddol o ymddangos o fewn yr adran gefndir. Felly mae potensial ar gyfer nodi'n fwy eglur y rheswm dros benderfyniad mewn adroddiadau a chofnodion o benderfyniadau.

30 At ei gilydd, mae gwybodaeth yn amserol ac yn hygyrch i'r cyhoedd, ac mae papurau agenda yn cyfeirio'n glir at y wybodaeth sydd ar gael ar wahanol ffurfiau. Ymhellach, mae cyfran fawr o gyfarfodydd pwyllgor y Cyngor yn cael eu gwe-ddarlledu yn fyw, yn ogystal â'r fideos a wneir wedyn i'w gwylio ar-lein. Mae'r Cyngor hefyd yn cyhoeddi cofnodion drafft o'i bwyllgorau yn hytrach nag aros i'r rhain gael eu cymeradwyo'n ffurfiol yn y cyfarfod nesaf cyn eu cyhoeddi; mae hyn yn golygu bod gwybodaeth yn fwy cyfredol.

## Mae gan y Cyngor drefniadau cadarn ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid ar gynigion i newid gwasanaethau

31 Mae gan y Cyngor drefniadau da i ymgysylltu â rhanddeiliaid a'u hybysu o ystyriaethau i newid gwasanaethau, megis cylchlythyr Llais Torfaen, sioeau teithiol y gyllideb, Panel y Bobl a My Say. Mae gwefan y Cyngor yn cynnwys tudalen arbennig ar ymgysylltiad ac ymgynghoriad, sy'n cynnwys gwybodaeth am My Say a sut i ymuno â Phanel y Bobl. Mae'r Cyngor hefyd yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol yn helaeth i ymgynghori ac ymygysylltu â rhanddeiliaid, ac mae ganddo ffrwd Twitter byr yn ystod cyfarfodydd ei Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu. Mae'r rhain yn cynnwys cyfle i godi cwestiynau yn uniongyrchol gyda Phrif Weithredwr y Cyngor.

32 Mae dolen Sut i gymryd rhan mewn democratiaeth y Cyngor ar ei wefan yn darparu gwybodaeth ynghylch mynychu cyfarfodydd cyhoeddus, siarad yn gyhoeddus mewn cyfarfodydd, gwe-ddarlledu cyfarfodydd y Cyngor ac yn esbonio bod hawl gan y cyhoedd i ofyn cwestiynau neu gyflwyno deisebau i'r Cyngor. Mae hefyd yn darparu dolen i raglen waith weithredol y Cyngor.

33 Canfuom fod ymgysylltu effeithiol gyda rhanddeiliaid wedi digwydd yn rhai o'r newidiadau mewn gwasanaethau a adolygwyd gennym a'u bod wedi esbonio'r newidiadau mewn gwasanaethau a oedd dan sylw yn glir. Roedd hyn yn cynnwys ymgysylltiad rhagweithiol gyda CyMAL (Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru) fel rhan o gynigion y Cyngor ar gyfer cyd-leoli llyfrgelloedd; craffu ac ymgysylltiad cyhoeddus wrth gyflwyno biniau gwastraff tenau; ac ymgysylltu â chynghorau cymuned ar y newidiadau i doiledau cyhoeddus. Bu ymgynghoriad cynnar gyda staff ac Undebau Llafur ynghylch newidiadau sylweddol posibl mewn gwasanaethau. Roedd llawer o'r partneriaid a ymatebodd i'n holiadur yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y Cyngor yn ymgysylltu â hwy yn effeithiol wrth ystyried newidiadau sylweddol i wasanaethau.

## Mae'r Cyngor yn monitro effaith newidiadau mewn gwasanaethau ond nid yw ei drefniadau yn systematig

34 Mae mesurau llwyddiant, y gall y Cyngor eu defnyddio i fonitro effaith newidiadau mewn gwasanaeth, wedi'u hamlinellu yn adroddiadau'r Cyngor, megis yr adroddiad ar newid gwasanaethau llyfrgell. Mae canllawiau'r Cyngor ar adroddiadau ar benderfyniadau allweddol yn cynnwys gwybodaeth ynghylch beth ddylai adran yr adroddiad ar fesurau llwyddiant ei chynnwys, ond mae lle i'r Cyngor wella prosesau monitro effaith y newidiadau mewn gwasanaethau. Er enghraifft, gallai'r Cyngor fod yn fwy penodol o ran nodi beth y mae angen iddo ei asesu ynghylch effeithiau ei benderfyniadau i newid gwasanaethau, sut fydd y monitro hwn yn digwydd, a phwy fydd yn gyfrifol am fonitro'r effaith.

35 Roedd y Cyngor yn arfer cynnal asesiadau effaith polisi ar newidiadau mewn gwasanaethau a chamau i liniaru'r gyllideb. Erbyn hyn, defnyddir asesiadau llesiant sydd hefyd yn cynnwys ystyriaeth o faterion cydraddoldeb. Mae'r asesiadau llesiant ar gael gydag adroddiadau i'r Cabinet, y Cyngor a phwyllgorau Trosolwg a Chraffu. Fodd bynnag, nid yw'r templed asesu llesiant newydd yn nodi sut fydd y Cyngor yn monitro effaith y newidiadau mewn gwasanaethau.

36 Mae cyfarfodydd asesu perfformiad corfforaethol chwarterol y Cyngor yn fecanwaith allweddol sy'n galluogi aelodau a swyddogion i ganolbwyntio ar effaith y newidiadau mewn gwasanaethau ar berfformiad. Er enghraifft, mae'r Cyngor yn monitro effaith cyflwyniad y biniau gwastraff 'tenau' ar berfformiad gwastraff ac ailgylchu fel hyn. Mae'r Cyngor hefyd yn monitro ei gwynion yn rheolaidd, a chaiff canlyniadau hynny eu hadrodd i'r Cabinet a'r Tîm Rheoli Corfforaethol. Mae hyn yn darparu ffordd arall i'r Cyngor ystyried effaith y newidiadau mewn gwasanaethau. Mae gan y Cyngor hefyd drefniadau effeithiol ar gyfer monitro i ba raddau y gwireddwyd arbedion a ragwelwyd yn y gyllideb.

37 Roedd yn amlwg bod pwyllgorau craffu yn rhagweithiol o ran gofyn i gael adolygu newidiadau mewn gwasanaethau ar ôl iddynt gael eu gweithredu. Ceir enghreifftiau o bwyllgorau craffu yn monitro effaith newidiadau mewn

gwasanaethau gan gynnwys yr ymddiriedolaeth hamdden, cyflwyniad y ‘biniau tenau’, a threfniadau cydweithredu gyda Shared Resources Services, sydd wedi’i gynnwys yn rhaglen waith 2016-17 y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau a Busnes Corfforaethol.

38 Mae rhaglen waith pob un o bwyllgorau craffu’r Cyngor ar gael ar wefan y Cyngor, ond nid ydynt yn darparu manylion ynghylch natur yr eitemau i’w trafod nac ar bwrpas yr eitem dan sylw. Nid yw dyddiadau’r cyfarfodydd yn gyflawn i bob testun ychwaith.

39 Mae tystiolaeth bod trefniadau trosiannol ar gyfer newidiadau sylweddol mewn gwasanaethau yn cael eu hystyried yn effeithiol. Er enghraifft, bu tîm gwastraff y Cyngor yn ymgysylltu gyda busnesau lleol ynghylch cyflwyno taliadau am gasglu gwastraff masnachol, gan ddarparu gwybodaeth i ategu hyn. Cyfarfu’r tîm Gofal Cymdeithasol hefyd gyda’r sawl fyddai’n cael eu heffeithio gan drefniadau i sicrhau bod pecynnau gofal yn briodol o ran maint, yn sgil newidiadau mewn meini prawf cymhwyso.

## Mae’r Cyngor yn adolygu a gwella effeithiolrwydd ei drefniadau gwneud penderfyniadau yn rhagweithiol

40 Fel y dangosodd ein hadroddiad Asesu Corfforaethol diweddar, mae prosesau sicrhau a hunan-arfarnu’r Cyngor yn gadarn, gan ei alluogi i asesu’n effeithiol ei fframwaith llywodraethu corfforaethol, a nodi ble mae angen gwelliant pellach yn hyn o beth. Daethom i’r casgliad bod gan y Cyngor ddiwylliant dysgu. Yn ystod ein cyfweliadau fel rhan o’r adolygiad hwn, roedd aelodau a swyddogion yn agored ac yn amlwg yn ymwybodol o gryfderau, cyfleoedd a heriau’r Cyngor ynghyd â meysydd ar gyfer eu gwella.

41 Mae’r Cyngor wedi dysgu o newidiadau sylweddol i wasanaethau a heriau blaenorol. Mae wedi cryfhau nifer o’i drefniadau, fel ei drefniadau ar gyfer ymgysylltu gyda’r cyhoedd, datblygiad gweithdai craffu ar y cyd a datblygiad gweledigaeth wleidyddol eglur. Mae hefyd yn awyddus iawn i ymwreiddio ystyriaeth o’r egwyddor datblygu cynaliadwy i’r newidiadau mewn gwasanaethau a gynigir, ac mae’r uwch arweinyddiaeth yn cyfleu’r neges hon drwy’r sefydliad. Mae’r Cyngor yn ddiweddar wedi cytuno i fod yn un o’r sefydliadau peilot yn natblygiad dull Archwilydd Cyffredinol Cymru o archwilio sut mae cyrff yn gwireddu gofynion Deddf LlCD.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone : 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru